



Cynllun Strategol

2025-28

Ein gweledigaeth



Dyfodol ariannol gwell i bawb sydd mewn angen



Ein cenhadaeth

Gan weithio gyda'n gilydd,
rydym yn helpu pobl i reoli
eu harian heddiw ac ar
gyfer y dyfodol

I Cynnwys

Rhagair	4
Beth rydym yn ei wneud	6
Beth rydym wedi'i gyflawni	8
Lles ariannol yn y DU	9
Ein diwylliant a'n gwerthoedd	10
Ein blaenoriaethau strategol	11
- Gwasanaethau gwyb sy'n gwneud gwahaniaeth	12
- Cydweithredu sy'n cael canlyniadau	15
- Gwybodaeth sy'n galluogi	18
- Galluogrwydd sy'n trawsnewid	20
Sut i gymryd rhan	22

I Rhagair

Mae miliynau o bobl ledled y DU yn wynebu pwysau cynyddol o ran costau byw sydd wedi cronni dros sawl blwyddyn. Yn y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r rhai sydd angen ein cymorth, er mwyn sicrhau dyfodol ariannol gwell i bawb sydd mewn angen.

Mae llywodraeth y DU wedi gwneud codi safonau byw yn flaenoriaeth uchel fel rhan o'i chenhadaeth i **rhoi hwb i dwf economaidd**. Ynghyd â llawer o bartneriaid ledled y DU, rydym yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni'r nod hollbwysig hwnnw drwy helpu pobl i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus, llywio heriau ariannol, a pharatoi ar gyfer bywyd diweddarach. Boed yn cefnogi pobl i reoli eu gwariant o ddydd i ddydd, cael mynediad at gyngor ar ddyledion, neu gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad, mae ein gwaith yn grymuso unigolion i wella eu lles ariannol.

Yn gryno: drwy gydweithio, gallwn helpu pobl i reoli eu harian heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

Bob dydd, mae'r gwasanaethau a ddarparwn – yn uniongyrchol a chyda'n partneriaid – yn trawsnewid bywydau. Rydym yn helpu pobl i oresgyn anawsterau ariannol a dychwelyd i gyflogaeth¹. Rydym yn helpu pobl i gynllunio ar gyfer ymddeoliad a rhoi hwb i'w cynllion pensiwn. Ac rydym yn cyfrannu at gymdeithas iachach, gan fod iechyd ariannol da yn allweddol i wella lles². Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael mynediad at y cymorth sydd ei hangen arnynt.

Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn yr effaith sydd gennym ni a'n partneriaid ar unigolion, cymunedau a chymdeithas. Ac eto, rydym yn benderfynol o wneud mwy i'r miliynau o bobl sydd angen ein help a'n cymorth.

O'n harolwg MoneyView yn y DU, rydym ni'n gwybod bod:

40% o bobl sydd angen cyngor ar ddyledion o dan 35 oed

Mae gan fwy na hanner o bobl sy'n byw ag anabledd **heb gynllunio ar gyfer ymddeol**

Mae traean y bobl â chyflwr iechyd meddwl **yn dibynnu ar gredyd ar gyfer hanfodion**

Ac mae **80%** o rieni sengl **yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â'u biliau**.

Ers i ni gyhoeddi ein **strategaeth ar gyfer 2022-25**, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol. Rydym wedi comisiynu cyngor dyled o ansawdd uchel i fwy na 1.7 miliwn o bobl yn Lloegr, wedi darparu hyfforddiant am ddim am y tro cyntaf i filoedd o ymarferwyr arweiniad ariannol rheng flaen ledled y DU, ac wedi sefydlu HelpwrArian fel ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth ac arweiniad diduedd i filiynau o bobl sy'n chwilio am gymorth gyda'u harian a'u pensiynau.

Ochr yn ochr â chynyddu ein cyrhaeddiad, rydym hefyd wedi cyflawni newidiadau mawr a fydd yn gwella ein heffaith, megis datblygu gwasanaeth Pension Wise digidol newydd a llawer gwell, adeiladu'r seilwaith ar gyfer lansio dangosfyrddau pensiynau yn llwyddiannus yn y dyfodol, a chydlynu a chefnogi ystod eang o ymrwymadau allweddol a nodir yng **ngyhynlluniau cyflawni cenedlaethol**. Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol

1 [CIPD, Cebr 2023](#)

2 [Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl](#)

Wrth ddatblygu ein strategaeth ar gyfer 2025–28, roedd yn bwysig adeiladu ar y cynnydd hwn ac ymateb hefyd i'r heriau ariannol anodd y mae llawer yn eu hwynebu heddiw. Ac felly, rydym wedi manteisio ar y cyfle i amlinellu gweledigaeth a chenhadaeth newydd:

Ein gweledigaeth: Dyfodol ariannol gwell i bawb sydd mewn angen.

Ein cenhadaeth Drwy gydweithio, gallwn helpu pobl i reoli eu harian heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

Esblygiad yw hwn, nid ymadawiad. Mae ein gweledigaeth a'n cenhadaeth flaenorol wedi ein gwasanaethu'n dda, ond rydym yn cydnabod bod eglurder a ffocws yn bwysig. Mae ein gweledigaeth newydd yn cydnabod nad yw lles ariannol yn ymwneud â gwneud y gorau o arian yn unig – mae'n ymwneud â mynd i'r afael â chaledi go iawn a darparu cymorth ystyrlon lle mae ei hangen fwyaf. Mae ein cenhadaeth, sy'n fwy cryno a chofiadwy, yn atgyfnerthu ein dull cydweithredol a'n hymrwymiad hirdymor i wydnwch ariannol.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn cyflawni mentrau allweddol ar draws pedair blaenoriaeth strategol:

- **Gwasanaethau gwych** sy'n gwneud gwahaniaeth – comisiynu gwasanaethau cyngor ar ddyledion mewn cymunedau ledled Lloegr, a thrawsnewid ein gwasanaethau arweiniad i fod yn fwy cydgyssylltiedig ac wedi'u cynllunio ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen
- **Cydweithredu** sy'n cael canlyniadau – ehangu ein rhaglen Tywyswyr Arian i alluogi miloedd mwy o ymarferwyr rheng flaen ledled y DU i ddarparu arweiniad o ansawdd uchel, a chefnogi strategaethau cynhwysiant ariannol a thlodi plant y llywodraeth



Sara Weller
Cadeirydd

- **Gwybodaeth** sy'n galluogi – cyflawni'r rhaglen dangosfyrddau pensiynau a lansio dangosfwrdd HelpwrArian, a rhannu a hyrwyddo ymchwil a mewnwelediadau i gefnogi gwneuthurwyr penderfyniadau yn y llywodraeth ac ar draws ein sectorau
- **Galluogrwydd** sy'n trawsnewid – adeiladu diwylliant sefydliadol cynhwysol ac ystwyth, a chryfhau ein galluedd mewn technoleg, data a deallusrwydd artifisial.

Ar draws popeth a wnawn, mae gennym gyfrifoldeb i ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf mewn angen. Mae deall anghenion amrywiol unigolion – gan gynnwys y rhai a allai gael trafferth wrth gael mynediad at gymorth ar hyn o bryd – wrth wraidd ein strategaeth. Bydd ein gwasanaethau'n parhau i fod ar agor i bawb sydd eu hangen, ond byddwn yn dylunio ac yn optimeiddio fwyfwy ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf. Byddwn yn parhau i adeiladu partneriaethau wedi'u targedu i sicrhau y gall pobl gael mynediad at y cymorth cywir, ar yr amser cywir a chan yr unigolion a'r sefydliadau y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt.

Mae ein cryfder mwyaf yn gorwedd yn arbenigedd ac ymrwymiad ein pobl a'n partneriaid, sy'n dod â gwybodaeth ddofn, profiad a dull cynhwysol o helpu pobl i lywio penderfyniadau ariannol. Ni fydd cyflawni ein hamcanion uchelgeisiol yn hawdd, ond drwy gydweithio – ar draws y llywodraeth, diwydiant a chymunedau – byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth: dyfodol ariannol gwell i bawb sydd mewn angen.



Oliver Morley
Prif Weithredwr

Beth rydym yn ei wneud

Y **Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS)** yw'r corff hyd braich a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), a sefydlwyd gan Ddeddf Canllawiau Ariannol a Hawliadau 2018. Fe'i sefydlwyd i gefnogi amcanion polisi DWP a Thrysorlys EF (HMT) mewn perthynas ag arweiniad pensiynau, arweiniad ariannol, cyngor ar ddyledion, a gwella gallu ariannol o blentynod hyd at fywyd diweddarach.

Mae ein **hamcanion statudol** yn arwain popeth a wnawn. Rydym wedi ymrwymo i:

- **Grymuso pobl** i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus.
- **Osgoi dyblygu diangen** wrth ddarparu gwybodaeth, arweiniad a chyngor.
- **Sicrhau eglurder a gwerth**, darparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.
- **Blaenoriaethu'r rhai sydd ein hangen fwyaf**, gan gynnwys pobl mewn amgylchiadau bregus.
- **Gweithio ledled y DU**, gan gynnwys gyda'r llywodraethau datganoledig yn yr Alban, Cymru, a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn gweithredu ar draws **pum swyddogaeth graidd**. Rydym yn **arwain strategaeth ledled y DU** i wella lles ariannol, gan sicrhau gweithredu cydlynol ar draws y llywodraeth, diwydiant a chymunedau ym mhob un o'r pedair gwlad. Rydym yn cefnogi gweithredu ar y cyd ar **ddiogelu'r defnyddiwr**, gan rannu data a mewnwelediadau gyda rheoleiddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Drwy ein **swyddogaethau cyflawni**, rydym yn darparu ac yn galluogi arweiniad ariannol ledled y DU ac yn comisiynu cyngor ar ddyledion yn Lloegr.

Cyngor ar Ddyledion

Ni yw'r ariannwr unigol mwyaf o gyngor ar ddyledion am ddim yn Lloegr. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid ledled y DU i wneud cyngor ar ddyledion yn haws ac yn gyflymach i'w gael, ac i wella safonau.

Yn Lloegr, rydym yn ariannu cyngor ar ddyledion i ddefnyddwyr a chymorth cysylltiedig, gan gynnwys gwasanaethau cyngor ar ddyledion cenedlaethol a chymunedol, cyngor ar ddyledion i berchnogion busnesau bach ac unig fasnachwyr, gweinyddu Gorchymyn Rhyddhad Dyledion (DRO), Rhwydwaith y Cyngorwyr Arian a Lle i Anadlu ar gyfer Argyfwng lechyd Meddwl. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o adnoddau seilwaith y sector dyled ledled y DU, gan gynnwys y Datganiad Ariannol Safonol a'r fframwaith ansawdd.

Rhwng 2022-25, helpodd ein gwasanaethau cyngor ar ddyledion a ariennir fwy nag 1.7 miliwn o bobl

Mae ein gwasanaethau sy'n wynebu defnyddwyr – sydd ar gael yn Saesneg a Chymraeg – yn helpu pobl i reoli eu harian, llywio heriau ariannol bywyd, ac adeiladu gwydnwch ariannol cryfach, gydag 88% o'n cwsmeriaid yn nodi gwell gwybodaeth a dealltwriaeth, a 77% yn dweud bod eu lles ariannol cyffredinol wedi gwella.

Arweiniad Arian a Phensiynau

Rydym yn darparu canllawiau diduedd a rhad ac am ddim ar arian a phensiynau, i helpu pobl i ddeall materion ariannol yn well a rheoli eu harian yn hyderus, heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn gwneud hyn drwy ddarparu offer a chynnwys digidol hunanwasanaeth ar ein gwefan HelpwrArian, canllawiau a ddarperir gan ymarferwyr dros y ffôn, e-bost, sgwrs gwe a WhatsApp. Rydym yn cynnig gwasanaethau arweiniad arbenigol, gan gynnwys Pension Wise a Diogelu Pensiynau.

Rhwng 2022-25, fe wnaeth ein hymarferwyr arweiniad helpu mwy na 1.5 miliwn o bobl, a derbyniodd ein gwefan dros 45 miliwn o ymweliadau


Tywswyr Arian

Rydym yn cefnogi ac yn galluogi sefydliadau ac ymarferwyr ledled y DU i ddarparu arweiniad o ansawdd uchel yn hyderus trwy ddarparu cyfleoedd dysgu trwy hyfforddiant arbenigol am ddim, achrediad, a digwyddiadau rhwydweithio gyda chymuned ymarfer sy'n tyfu.

Gan gydweithio â phartneriaid ar draws ystod eang o sectorau, rydym yn sicrhau y gall mwy o bobl sydd mewn angen gael mynediad at arweiniad ariannol o safon, pryd a ble mae ei angen arnynt.

Rhwng 2022-25, fe wnaethom gefnogi mwy na 16,000 o ymarferwyr ar draws 270 o sefydliadau

I Yr hyn rydym wedi'i gyflawni




Lles ariannol yn y DU





Mae hanner oedolion y DU

yn cael trafferth neu'n methu â chadw i fyny â biliau ac ymrwymadau¹


7m  **Roedd dros 7 miliwn o bobl** yn byw mewn cartrefi heb sicrwydd bwyd yn 2022/23, cynnydd o 2.5 miliwn mewn blwyddyn²


 **Mae un o bob pump** o oedolion yn benthycu arian i brynu bwyd neu dalu biliau³


 **44%** wedi rhoi'r gorau i neu leihau cynilo neu fuddsoddi i gael dau ben llinyn ynghyd⁴

 **Mae traean** o bobl sydd â phroblem iechyd meddwl diweddar yn benthycu arian ar gyfer bwyd neu i dalu biliau⁷


 **46%** o blant lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn tlodi⁸


 **40%** o bobl sydd angen cyngor ar ddyledion o dan 35 oed⁹

 **80%** o rieni sengl yn cael trafferth neu'n methu â chadw i fyny â biliau ac ymrwymadau¹⁰

 **Mae 1 o bob 4** o gyflogeion yn dweud bod pryderon ariannol yn effeithio ar eu gallu i wneud eu gwaith⁵

 **Mae hanner** heb gynllun ar gyfer eu cyllid ar ôl ymddeol⁶

 **Mae bron i 60%** o bobl mewn tlodi yn anabl neu'n byw gyda rhywun sydd yn anabl¹¹

 **50%** o denantiaid ddim yn ymdopi'n ariannol neu'n ei chael hi'n anodd¹²

 Ar gyfartaledd, mae gan fenywod **35% yn llai** yn eu cynilion pensiwn na dynion¹³

1 [MaPS \(2025\) MoneyView UK: 52%](#)

2 [DWP \(2025\) ystadegau HBAI](#)

3 [MaPS \(2025\) MoneyView: 19%](#)

4 [FCA \(2024\) Arolwg bywydau ariannol](#)

5 [CIPD \(2017\) Llesiant ariannol gweithwyr](#)

6 [MaPS \(2025\) MoneyView: 50%](#)

7 [MaPS \(2025\) MoneyView: 33%](#)

8 [Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant ac eraill \(2023\) Anghydraddoldebau wedi'u hymhelaethu](#)

9 [MaPS \(2025\) MoneyView UK: 40%](#)

10 [MaPS \(2025\) MoneyView: 78%](#)

11 [DWP \(2020\) Y bwch pensiynau rhywedd mewn pensiynau preifat](#)

12 [Comisiwn Metrigau Cymdeithasol \(2023\) Mesur tlodi](#)

13 [FCA \(2024\) Arolwg bywydau ariannol](#)

I Ein diwylliant a'n gwerthoedd



Yn MaPS, mae ein gwerthoedd—**Gofalu, Cysylltu, a Thrawsnewid**—wrth wraidd popeth a wnawn. Maent yn diffinio ein perthnasoedd – yn fewnol a gyda phartneriaid – gan lunio sut rydym yn cydweithio, yn dylanwadu ar y sector, ac yn ysgogi newid ystyrion. Maent yn arwain y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd, gan sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, cryfhau partneriaethau, a gwella lles ariannol ledled y DU.

Rydym wedi ymrwmo i feithrin diwylliant lle mae creadigrwydd yn ffynnu, lle mae pobl yn cymryd cyfrifoldeb personol, a lle rydym yn ymdrechu'n gyson i wella lles ariannol y rhai sydd ein hangen fwyaf. Ond rydym yn gwybod y gallwn ni wneud mwy. Rydym am ei gwneud hi'n haws i gydweithwyr arloesi, herio'r status quo, a gwella'n barhaus yr hyn a wnawn a sut rydym yn ei wneud. I gyflawni hyn, rydym yn esblygu i fod yn sefydliad mwy ystwyth – sy'n gallu addasu ac ymateb yn effeithiol i anghenion sy'n dod i'r amlwg, wedi'u llunio gan flynyddoedd o gythrwfl economaidd yn y DU ac yn fyd-eang. Mae hyn yn golygu gweithio'n agosach gyda'r llywodraeth ar flaenoriaethau polisi sy'n dod i'r amlwg a sy'n newidiol, a sicrhau bod ein gwasanaethau'n hyblyg ac yn ymatebol i'r rhai sy'n dibynnu fwyaf arnynt.

Rydym yn credu bod diwylliant cryf, sy'n cael ei yrru gan werthoedd, yn ein galluogi i gyflawni newid ystyrion – i unigolion, cymunedau, a'r economi ehangach.

Mae amrywiaeth a chynhwysiant (D&I) yn hanfodol i'n diwylliant oherwydd eu bod yn ein galluogi i wasanaethu ein cwsmeriaid yn well a gwella lles ariannol y rhai sydd ei angen fwyaf. Mae tîm amrywiol, wedi'i gyfoethogi gan wahanol safbwyntiau a phrofiadau bywyd, yn ein helpu i ddeall ein cwsmeriaid yn ddyfnach a llunio gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion mewn gwirionedd. Mae diwylliant cynhwysol yn meithrin creadigrwydd ac arloesi, gan sicrhau ein bod yn datblygu atebion sy'n adlewyrchu realiti'r bobl rydym yn eu cefnogi. A thrwy ein dwyn ein hunain i gyfrif, rydym yn meithrin ymddiriedaeth—nid yn unig o fewn ein sefydliad ond gyda'r unigolion a'r cymunedau rydym yma i'w helpu.

Mae ein **hamcanion D&I newydd** yn gosod llwybr uchelgeisiol ymlaen, gan sicrhau bod ein sefydliad yn adlewyrchu'r bobl rydym yn eu gwasanaethu, a'n bod yn parhau i chwalu rhwystrau i les ariannol i bawb.

Gwella hygyrchedd i gydweithwyr a chwsmeriaid

Defnyddio ein data a'n mewnwelediadau D&I yn strategol i wella canlyniadau

Sicrhau bod arweinwyr a rheolwyr yn cymryd cyfrifoldeb am feithrin diwylliant cynhwysol

Drwy fyw ein gwerthoedd bob dydd, byddwn yn ysbrydoli newid, yn gyrru arloesi, ac yn gwneud gwahaniaeth parhaol i'n pobl, ein partneriaid, a'r rhai sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau.

Ein blaenoriaethau strategol

**Gwasanaethau
gwyh** sy'n
gwneud
gwahaniaeth

Cydweithredu
sy'n cael
canlyniadau

Gwybodaeth
sy'n galluogi

Galluogrwydd
sy'n trawsnewid

Gwasanaethau gwyh sy'n gwneud gwahaniaeth



Rydym yma i helpu pobl i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus ac ennill y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i reoli eu harian yn dda drwy gydol eu hoes.

Mae miliynau o bobl yn defnyddio ein gwasanaethau rhad ac am ddim a diduedd bob blwyddyn ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu a chomisiynu cyngor ac arweiniad diduedd o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion. Mae hyn yn golygu y byddwn yn parhau i ariannu cyngor ar ddyledion cenedlaethol, cymunedol a busnes yn Lloegr, yn darparu canllawiau ariannol a phensiynau yn effeithlon ac yn effeithiol drwy [HelpwrArian](#) a darparu apwyntiadau pensiwn am ddim a diduedd i'r rhai dros 50 oed. Dros amser rydym am weld hyd yn oed mwy o bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Ond rydym yn cydnabod, er mwyn i ni **wir gyflawni ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen**, mae angen i ni edrych ar sut y gallwn wneud pethau'n wahanol, gan weithio ochr yn ochr â'n partneriaid a'n cwsmeriaid i ddylunio a gwella ein gwasanaethau i adlewyrchu orau yr hyn y mae pobl ei angen gennym.

Byddwn yn mynd ymhellach ar **gydgysylltu gwasanaethau**, fel bod cwsmeriaid yn derbyn cymorth effeithiol ar draws meysydd arian, dyled a phensiynau pryd a sut mae ei angen arnynt. Byddwn yn cwblhau trawsnewid ein gwasanaethau arweiniad, drwy optimeiddio'r ffordd rydym yn darparu arweiniad pensiwn. Byddwn yn blaenoriaethu integreiddio pellach ein pensiynau a'n cymorth dyled – gan weithio gyda llywodraethau datganoledig lle bo'n briodol – gan ein bod yn gwybod bod rhai o'n cwsmeriaid pensiynau

yn dod atom yn cael trafferth gyda phroblem dyled, ac mae gennym gyfrifoldeb i'w cefnogi i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Byddwn yn parhau i weithio ar ein systemau i sicrhau y gall ein cwsmeriaid symud yn ddi-dor rhwng gwahanol ffyrdd o gysylltu â ni – boed hynny ar-lein, dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb – a dal i gael profiad cydgysylltiedig a chyson. Byddwn yn gwella cysylltiadau â phartneriaid dibynadwy, ac yn enwedig â gwasanaethau'r llywodraeth, gan gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt a chael mynediad iddo. A byddwn yn cryfhau ein dull o ymdrin ag ansawdd a phrofiad cwsmeriaid ar draws ein holl wasanaethau a sianeli megis, sut bynnag y mae pobl yn ymgysylltu, y gallant fod yn hyderus y byddant yn cael gwasanaeth gwyh.

Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n agored i bawb, ond byddwn bob amser yn anelu at **ddylunio ein gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen** – pobl sy'n cael trafferth gyda lles ariannol, yn enwedig ar adegau pwysig. Bydd gwella hyn yn gofyn i ni ailystyried sut rydym yn casglu, dadansoddi a defnyddio ein data fel y gallwn dargedu a dylunio gwasanaethau'n well ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf.

Cyflawni ar gyfer pobl

Parhau i godi ansawdd ein gwasanaethau, gan helpu i wella bywydau bob dydd

Byddwn yn parhau i gydweithio â grŵp eang ac amrywiol o bartneriaid o fewn y sector dyled ledled Lloegr, gan ganolbwyntio ar gefnogi'r rhai sydd angen cyngor ar ddyledion fwyaf. Bydd pobl sy'n ceisio cyngor ar ddyledion yn cael eu cefnogi drwy wasanaethau a sianeli sy'n diwallu eu hanghenion unigol orau.

Byddwn yn ymdrechu am ragoriaeth wrth i ni baratoi ar gyfer, a chynnal, ein hymarfer comisiynu nesaf – gan ddod â gwersi a ddysgwyd o'r cylchoedd blaenorol, mewnwelediadau o'n [hymarfer ymgynghori](#), a gweithio mewn cydweithrediad â'n partneriaid. Rydym yn credu mai gweithio gyda phawb i hwyluso sector cyngor ar ddyledion sy'n ffynnu yw'r ffordd orau o gael mwy o bobl i gael y cymorth penodol sydd ei angen arnynt o ystyried eu sefyllfa.

Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd arloesol o wneud pethau'n well a gweithio gyda phartneriaid drwy ein fforwm technoleg newydd. Ar draws y sector, rydym i gyd yn awyddus i rannu a defnyddio technolegau arfer gorau, ac er ein bod yn gwybod bod angen i bob sefydliad wneud ei ddewisiadau ei hun ar dechnoleg, rydym am helpu i greu amgylchedd ar gyfer cydweithio.

Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraethau datganoledig i ddeall yr angen am gyngor ar ddyledion ledled y DU, gan gynnwys drwy ein harolygon blynyddol, a byddwn yn parhau i hyrwyddo a chyflwyno'r achos dros gefnogi'r sectorau dyledion ym mhob un o bedair rhan y DU.

Byddwn yn gwella'r gwasanaethau arweiniad ariannol a phensiynau a ddarparwn ledled y DU drwy ein brand HelpwrArian i'w gwneud hi'n haws i gwsmeriaid lywio'r cymorth sydd ei angen arnynt. Mae hyn yn cynnwys creu teithiau gwell ar draws sianeli, creu un drws ffrynt ar gyfer yr holl arweiniad a sicrhau ein bod yn ymgorffori anghenion hygyrchedd ym mhob pwynt, gan ganolbwyntio o ddifrif ar y pethau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod [Pension Wise](#) yn parhau i fod yn addas at y diben, gan ddarparu'r hyn sydd ei angen ar gwsmeriaid gan y gwasanaeth a chyflawni amcanion y polisi.

Byddwn yn darparu ac yn parhau i wella Dangosfwrdd Pensiynau HelpwrArian, gan drawsnewid y ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â'u pensiynau ac yn eu rheoli. Am y tro cyntaf, bydd pobl yn gallu gweld eu holl gronfeydd mewn un lle, gan gynnwys eu Pensiwn y Wladwriaeth, mynd i'r afael â phensiynau 'coll' a sicrhau bod pobl yn derbyn eu hawliau llawn.

Byddwn yn gweithredu Fframwaith Profiad Cwsmeriaid ac Ansawdd newydd ochr yn ochr â Safonau MaPS wedi'u diweddarau [a'u hadnewyddu](#), gan ystyried unrhyw argymhellion o adolygiad yr FCA. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud mesuriadau ansawdd yn fwy canolbwyntiedig ar brofiad cwsmeriaid ac yn fwy effeithiol fel offeryn i yrru gwelliant mewn gwasanaethau.

Darparu gwasanaethau cydgysylltiedig o fewn y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, a chydâ'n partneriaid

Gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad at y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt gyda'u harian, eu dyledion a'u pensiynau.

Byddwn yn mynd ymhellach wrth uno ein gwasanaethau ar draws arian, dyled a phensiynau, gan ein bod yn gwybod bod gan bobl broblemau cymhleth yn aml ac angen cymorth gyda mwy nag un peth. Yn benodol, byddwn yn datblygu llwybrau cryfach o arweiniad ar bensiynau i gyngor ar ddyledion, gan fod gan rai o'n cwsmeriaid sy'n cael mynediad at arweiniad ar bensiynau bryderon ynghylch dyledion hefyd. Byddwn yn gweithio gyda llywodraethau ac asiantaethau datganoledig lle bo'n briodol.

Bydd ein gwaith o ran dylunio a gwella gwasanaethau yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau a thaith cwsmer o ansawdd uchel ac yn gost-effeithiol. Ein nod yw sicrhau bod pawb – yn enwedig y rhai sydd â'r angen mwyaf – yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt ar unrhyw bwnc ariannol, waeth sut y daethant i gysylltiad â MaPS yn gyntaf.

Wrth i [ddangosfyrddau pensiynau](#) ddod ar gael i'r cyhoedd, byddwn yn archwilio cyfleoedd gyda darparwyr masnachol i gyfeirio eu cwsmeriaid at HelpwrArian, lle byddent yn elwa o wybodaeth ac arweiniad diduedd, neu at gyngor ar ddyledion, lle bo'n briodol.

Byddwn yn gwella cysylltiadau â phartneriaid dibynadwy, yn enwedig â gwasanaethau'r llywodraeth, drwy ffurfioli partneriaethau gwasanaethau ac archwilio cyfleoedd allgymorth i ymestyn ein cyrhaeddiad megis cyflwyno cynnwys ac offer HelpwrArian drwy bartneriaid Tywyswyr Arian.

Dylunio ein gwasanaethau ar gyfer y rhai mwyaf anghenus


Gwella ein heffaith ar gyfer pobl sy'n cael trafferth gyda lles ariannol, yn enwedig ar adegau pwysig

Byddwn yn dylunio ein gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen, yr ydym wedi'u diffinio fel "pobl sy'n cael trafferth gyda lles ariannol, yn enwedig ar adegau pwysig", gan fod ar agor i bawb.

Mae hyn yn golygu:

- Defnyddio ein dealltwriaeth o'r rhai sydd fwyaf mewn angen i fireinio ein cwsmeriaid targed ar gyfer pob un o'n llinellau gwasanaeth
- Gwella a defnyddio ein data'n well i lywio gwelliannau i wasanaethau, targedu partneriaethau strategol newydd a sut rydym yn olrhain ac yn mesur ein perfformiad
- Parhau â'n gwaith i sicrhau bod ein gwasanaethau wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf mewn angen.

Byddwn yn asesu'n barhaus pa mor dda rydym yn cyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn angen – naill ai drwy ein gwasanaethau neu drwy **partneriaethau ar lefel ranbarthol, genedlaethol a'r DU**. Lle byddwn yn dod o hyd i fylchau mewn cyrhaeddiad, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar ddeall a goresgyn rhwystrau i ymgysylltu.



Cydweithredu sy'n cael canlyniadau

Mae cyflawni ein gweledigaeth o ddyfodol ariannol gwell i bawb mewn angen yn gofyn am weithredu ar y cyd a gwaith tîm llawer o bobl a sefydliadau ledled y DU. Mae gan MaPS gyfrifoldeb unigryw a phŵer cynnull i ddod â phobl ynghyd i wneud cynnydd ar les ariannol – o adrannau llywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig, rheoleiddwyr, diwydiant a sefydliadau perthnasol eraill a grwpiau â buddiant.

Rydym eisoes yn gweithio gyda channoedd o bartneriaid ledled y DU, gan ein helpu i gyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn angen a chael mwy o effaith nag y gallem ei chael ar ein pennau ein hunain. Mae'r cynllun strategol newydd hwn yn nodi datblygiad sylweddol ar y dull hwnnw – i **fynd lle mae pobl** – gan sicrhau ein bod yn eu cyrraedd ar yr amser iawn ac yn y lle iawn gyda'r cymorth sydd ei angen arnynt.

Rydym yn gwybod nad oes gennym bob amser berthnasoedd uniongyrchol â'r rhai sydd fwyaf angen help. Dyna pam y gwnaethom greu'r **Rhaglen Tywyswyr Arian**, sy'n cefnogi ac yn galluogi'r system eang o arweiniad ac addysg ariannol i fod yn fwy effeithiol, gan gynnwys trwy weithio gyda sefydliadau partner i ddarparu hyfforddiant ac achrediad i'w hymarferwyr rheng flaen. Dechreuodd y fenter hon fel cynllun peilot bach a chyflawnodd ganlyniadau eithriadol. Mae bellach yn barod i ehangu partneriaethau ag ystod ehangach o sefydliadau – ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau lleol, canolfannau gwaith, elusennau, cymdeithasau tai – i fanteisio ar gyrhaeddiad ac ymgysylltiad miloedd o ymarferwyr dibynadwy. Drwy fanteisio ar y seilwaith a'r buddsoddi presennol gan ystod eang o sectorau, gallwn alluogi miliynau yn fwy o bobl i dderbyn cymorth a chymorth o ansawdd da a ddarperir gan y sefydliadau y maent eisoes yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt.

Byddwn yn cyflawni'r cyfeiriad strategol newydd hwn mewn ffyrdd eraill hefyd, gan gynnwys cydweithio â'r diwydiant pensiynau i sicrhau lansiad llwyddiannus dangosfyrdau pensiynau, a thrwy geisio ystod ehangach o bartneriaethau strategol – cenedlaethol, seiliedig ar le ac ar gyfryngau cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar ymddiriedaeth, cyrhaeddiad ac effaith – i gyrraedd pobl yn y lle iawn ac ar yr amser iawn.

Rydym wrth ein bodd yn cefnogi gwaith Trysorlys EF i ddatblygu a chyflawni Strategaeth Cynhwysiant Ariannol y DU, a Strategaeth Tlodi Plant ar y cyd dan arweiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Addysg. Byddwn yn parhau i gydlyn â llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ynghylch sut mae'r strategaethau newydd hyn yn gweithio gyda Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol a'r pedwar cynllun cyflawni cenedlaethol ac yn adeiladu ar gynnydd y Strategaeth honno.

Byddwn hefyd yn parhau i chwarae rhan bwysig y tu ôl i'r llenni, gan nodi a gweithredu cyfleoedd allweddol i ddarparu **seilwaith ac adnoddau a rennir**. Drwy gynnig offer a chynnwys y gellir eu rhannu'n hawdd, ein nod yw gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd ar y cyd. Bydd hyn yn caniatáu i sefydliadau ganolbwyntio eu hymdrechion ar ddarparu cymorth rheng flaen, gan wybod eu bod yn cael eu cefnogi gan adnoddau arbenigol diogel a dibynadwy.

Mynd lle mae pobl

Cyrraedd llawer mwy o bobl mewn angen gyda chymorth a chefnogaeth o safon, trwy'r unigolion a'r sefydliadau y maent yn ymddiried ynddynt

Byddwn yn ehangu ac yn gwella ein rhaglen Tywyswyr Arian – gan ddarparu arweiniad o safon i gwsmeriaid ym mhob gwlad drwy sefydliadau ac ymarferwyr dibynadwy – gan gynyddu ein cyrhaeddiad a'n heffaith. Bydd ein gwaith yn adeiladu ac yn cefnogi partneriaethau strategol gyda ffocws penodol ar gyrraedd y bobl sydd fwyaf angen cymorth. Byddwn yn gweithio gyda'n hamrywiaeth amrywiol o bartneriaid mewn llawer o wahanol leoliadau sy'n cwmpasu mwy o sectorau – e.e. ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau lleol, canolfannau gwaith, elusennau, cymdeithasau tai – gan adeiladu a graddio cymuned o ymarferwyr hyfforddedig i'w gwneud hi'n haws i bobl mewn angen gael arweiniad effeithiol, yn aml ochr yn ochr â chymorth ehangach.

Byddwn yn anelu at gysylltu pobl yn uniongyrchol â gwasanaethau cyngor ar ddyledion o ansawdd uchel ar adegau datgelu—boed hynny i feddyg teulu, darparwr ffôn symudol, neu weithiwr proffesiynol dibynadwy arall megis Hyfforddwr Gwaith Canolfan Byd Gwaith. Gan fanteisio ar dechnoleg newydd a phresennol, byddwn yn darparu mynediad symlach i gyngor ar ddyledion a fydd yn caniatáu i bobl ddewis eu dull cysylltu dewisol – boed yn alwad yn ôl ar unwaith, apwyntiad wedi'i drefnu, neu atgyfeiriad at offer dyled digidol – gan sicrhau bod y broses yn addas i'w hanghenion a'u dewisiadau.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraethau datganoledig a chymhwyso'r hyn rydym wedi'i ddysgu am fabwysiadu dull datganoledig drwy weithio gyda meiri metro a phartneriaid rhanbarthol. Byddwn yn meithrin partneriaethau strategol i gynnig cymorth fwy cynhwysfawr i bobl ledled y DU gyfan ar y cyd, gyda phwyslais penodol ar gydweithrediadau sy'n seiliedig ar le. Byddwn yn alinio ag agenda datganoli llywodraeth y DU, gan nodi cyfleoedd ar gyfer partneriaethau mewn mewnwelediad, polisi a darparu gwasanaethau.

Byddwn yn ehangu sut rydym yn cyrraedd ac yn ymgysylltu â'r rhai sydd fwyaf angen arweiniad am arian a phensiynau, trwy bartneriaethau wedi'u targedu â'r bobl a'r sefydliadau y maent yn ymddiried fwyaf ynddynt. Byddwn yn archwilio cyfleoedd cyd-frandio a sut y gallwn wneud mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn parhau i gryfhau ein rôl arweinyddiaeth strategol a chydlynu ar gyfer addysg ariannol i blant a phobl ifanc drwy gefnogi sefydliadau ac unigolion allweddol y gellir ymddiried ynddynt – gan eu helpu i feithrin sgiliau, gwybodaeth, hyder ac agweddau plant a phobl ifanc ledled y DU.

Gwyddom fod yr addysg ariannol fwyaf effeithiol yn digwydd yn y cartref (trwy rieni a gofaluwyr), lleoliadau addysg (megis ysgolion a cholegau) a gwasanaethau plant a phobl ifanc (gan gynnwys sefydliadau ieuencid a gwasanaethau cymdeithasol). Byddwn yn helpu i wella effeithiolrwydd y ddarpariaeth drwy'r lleoliadau hyn drwy sefydlu MaPS ymhellach fel canolfan arbenigedd – gan gefnogi penderfyniadau polisi a chyllido, llunio ymchwil a darparu canllawiau ac adnoddau i ddarparwyr.

Partner dibynadwy i'r llywodraeth

Cryfhau ein henw da fel partner dibynadwy i helpu i lywio a chyflawni blaenoriaethau sy'n gwella lles ariannol

Ar draws llywodraethau, gellir ariannu canllawiau ariannol a chyngor ar ddyledion mewn sawl ffordd y tu hwnt i'r ardoll gwasanaethau ariannol draddodiadol. Rydym yn dymuno cefnogi'r ymdrechion hyn i arallgyfeirio cyllid, ac yn credu bod y gallu unigryw y mae MaPS wedi'i ddatblygu o amgylch comisiynu a darparu'r gwasanaethau hyn yn ein gwneud yn hwylusydd pwysig gydag adrannau llywodraeth eraill sy'n meithrin gallu tebyg.

Byddwn yn ceisio gweithio ar draws y llywodraeth i gefnogi neu gyflawni gweithgareddau cyngor ar ddyledion lle bynnag y cynhelir y polisi o fewn adrannau. Drwy helpu i uno gwahanol bolisiau a chyllid y llywodraeth, gallwn gyda'n gilydd gyflawni gwell ansawdd a gwerth am arian. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda nifer o adrannau llywodraeth ganolog ac yn bwriadu archwilio a chryfhau'r dull hwn.

Byddwn yn rhannu cynnydd gydag is-bwyllgor llywodraeth ddatganoledig Bwrdd MaPS i gefnogi dull cydgysylltiedig ym mhob un o'r pedair gwlad.

Byddwn yn gweithio gyda Thrysorlys Ei Fawrhydi fel partner allweddol i helpu i ddatblygu a chyflawni Strategaeth Cynhwysiant Ariannol newydd y DU, a chyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Addysg i gefnogi'r Strategaeth Tlodi Plant.

Wrth i'r strategaethau hyn barhau i ddatblygu – ynghyd â pholisiau ehangach y llywodraeth, megis helpu pobl i ddychwelyd i gyflogaeth – byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol i sicrhau bod ei chynnydd yn cael ei adeiladu ar fentrau polisi ehangach ar draws y pedair gwlad ac yn eu cefnogi.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r llywodraeth i gyflawni ymgyrchoedd blaenoriaeth, yn enwedig lle gallwn gynnig gwerth ychwanegol trwy ein cyrhaeddiad uniongyrchol â defnyddwyr a'n rhwydweithiau partneriaeth, er enghraifft, cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Gredyd Pensiwn.

Datblygu seilwaith ac adnoddau'r sector cyngor ar ddyledion

Helpu i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyngor ar ddyledion ledled y DU

Byddwn yn gwella effeithlonrwydd gweithredol drwy gynnig cymorth wedi'i dargedu i gyflenwyr cyngor ar ddyledion, gan eu galluogi i fabwysiadu ac integreiddio technolegau ac arferion newydd a phresennol sy'n gwella effeithlonrwydd eu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys cynnig cynlluniau cyllid grant i ysgogi arloesi a moderneiddio ar draws y sector.

Byddwn yn cryfhau cydweithio traws-sector i greu cyfleoedd ar gyfer effaith ehangach drwy fentrau megis y fforwm technoleg. Bydd ein dull yn cael ei lunio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael wrth i ni gynnal ymchwil defnyddwyr gynhwysfawr a gwerthusiad o'r ddarpariaeth ddyled gyfredol i nodi bylchau, heriau a chyfleoedd i wella.

Bydd ein mentrau'n alinio â blaenoriaethau allweddol y llywodraeth ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i gyd-greu map ffordd technoleg sy'n ehangu gallu cyflawni'r sector ac yn gwella dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) trwy gyfch parhaus o ddarganfod, creu prototeipiau, a gwerthuso a gweithredu.

Byddwn yn diweddarau ac yn parhau i gefnogi'r defnydd a'r mabwysiadu pellach o'r **Datganiad Ariannol Safonol (SFS)** – offeryn sy'n crynhoi incwm a gwariant person, ynghyd â'r dyledion sydd ganddynt, gan ddarparu un fformat cydnabyddedig ar gyfer datganiadau ariannol. Bydd hyn yn caniatáu i'r sector cyngor ar ddyledion a chredydwyr gydweithio i gyflawni'r canlyniadau cywir i bobl sy'n cael trafferth gyda'u harian. Byddwn yn adolygu opsiynau technoleg i ganiatáu safoni a chyfathrebu'r SFS yn hawdd, o bosibl trwy API (rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadu).

Bydd MaPS yn cydweithio ar draws llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, gyda rheoleiddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i hyrwyddo anghenion pobl mewn dyled a gwella ffyrdd o weithio gyda'r sector dyled. Drwy gydweithio bydd MaPS yn sicrhau bod gwasanaethau'r llywodraeth a gwasanaethau eraill yn cael eu cynllunio ag anghenion pobl mewn dyled mewn golwg, gan wneud cyngor yn fwy hygyrch ac yn fwy deniadol. Byddwn yn hyrwyddo arloesi, buddsoddi mewn seilwaith a datblygu atebion ar y cyd sy'n sbarduno canlyniadau cadarnhaol yn y sector dyled.

Gwybodaeth sy'n galluogi



Wrth wraidd ein pwrpas mae gallu darparu gwybodaeth arbenigol a chredadwy sy'n arwain at weithredu. P'un a ydym yn helpu pobl gyda'u harian drwy ein dangosfwrdd canllawiau neu bensiynau, neu'n helpu partneriaid i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth – ni yw'r arbenigwyr lles ariannol.

Byddwn yn cryfhau safle MaPS fel sefydliad blaenllaw yn y DU ar gyfer ymchwil a mewnwelediad o fewn ein cylch gwaith statudol – sy'n cwmpasu cyngor ar ddyledion, pensiynau, gallu a lles ariannol o ddydd i ddydd, diogelu defnyddwyr, ac addysg ariannol i blant a phobl ifanc – gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â bylchau allweddol a chefnogi'r llywodraeth, gan gynnwys drwy ein harolwg MoneyView y DU. Gan gydweithio ag eraill, byddwn yn nodi anghenion mewnwelediad heb eu diwallu ac yn addasu ein rôl i gyflawni'r effaith fwyaf. Er ein bod yn hyblyg ynghylch sut y bydd hyn yn datblygu, ein prif amcan yw sicrhau sylfaen dystiolaeth gref sy'n ein helpu ni i gyd i sbarduno newid. Elfen allweddol o'n strategaeth allgymorth fydd gwneud ein gwybodaeth yn hawdd ei defnyddio gan bartneriaid.

Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan blatfform digidol newydd sy'n cwmpasu ein hystod lawn o adnoddau, gan gynnwys hyb wedi'i hadnewyddu a'i diweddarau'n llawn. Ein huchelgais yw i hyn ddod yn ffynhonnell benodol i gyllidwyr, gwneuthurwyr penderfyniadau a darparwyr.

Yn ystod cyfnod y cynllun strategol, bydd ein **Rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau** trawsnewidiol yn symud o ddatblygu i lansio. Am y tro cyntaf, bydd pobl ledled y DU yn gallu cael yr holl wybodaeth am eu cronfeydd pensiwn mewn un lle. I rai, bydd yr hyn maen nhw'n ei weld yn rhyddhad. I eraill, pryder. Gall hyn arwain at syrthni; rydym am iddo fod yn drobwynt. Byddwn wrth ochr pobl i'w helpu i ddeall beth mae'r wybodaeth newydd hon yn ei olygu iddyn nhw, beth allan nhw ei wneud yn ei chylch, a'u galluogi i weithredu. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiant i sicrhau ein bod yn darparu seilwaith cadarn a diogel sy'n gweithredu er budd y defnyddwyr ac yn diwallu anghenion rhanddeiliaid.

Byddwn yn parhau i gyflawni ein cynnig **addysg ac arweiniad ariannol** craidd i ddefnyddwyr drwy HelpwrArian, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng cynnwys ein canllawiau a'r dystiolaeth a gasglwn. Mae miliynau o bobl yn defnyddio ein canllawiau bob blwyddyn, byddwn yn parhau i sicrhau bod yr ymddiriedaeth sydd gan gwsmeriaid ynom ni yn haeddiannol.

Rhannu a hyrwyddo ymchwil a mewnwleidiad

Creu a rhannu gwybodaeth sy'n galluogi gwneuthurwyr penderfyniadau ym mhobman i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol i les ariannol

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau eraill sy'n cynhyrchu neu'n comisiynu ymchwil sy'n ymwneud â lles ariannol defnyddwyr (ar draws arian, pensiynau a dyled), i ddatblygu a rheoli cynllun cydlynol ar gyfer cynhyrchu a lledaenu tystiolaeth newydd.

Byddwn yn adeiladu set feincnod o dystiolaeth a ryddheir yn rheolaidd sy'n helpu llywodraethau, partneriaid, a ni ein hunain i wella ein dealltwriaeth o faterion lles ariannol, megis gwerthusiadau 'beth sy'n gweithio', tueddiadau lles ariannol defnyddwyr, ac effaith cyngor ac arweiniad ar les ehangach.

Byddwn yn nodi cyfleoedd i wella ein dealltwriaeth o'n cwsmeriaid, a defnyddwyr ehangach drwy ddarparu gwasanaethau presennol a newydd, fel dangosfyrddau pensiynau.

Byddwn yn datblygu gofod digidol canolog i bartneriaid a rhanddeiliaid gael mynediad at ein hystod lawn o adnoddau, gan gynnwys tystiolaeth a mewnwleidiadau, yn ogystal ag adnoddau Tywyswyr Arian, cynnwys ac offer syndicetio HelpwrArian, a mwy.

Byddwn yn parhau i gyflawni a thyfu ein hymgyrch **Wythnos Siarad Arian** blynyddol – ein menter ledled y DU sy'n hyrwyddo sgysiau agored am arian ac yn annog unigolion i weithredu. Y nod fydd parhau i dorri'r tabŵ sy'n ymwneud â thrafodaethau sy'n ymwneud ag arian a grymuso unigolion a theluoedd i gymryd camau gweithredu a gwneud penderfyniadau ariannol gwybodus i wella eu lles ariannol.

Bydd ein swyddogaeth diogelu defnyddwyr yn parhau i gydweithio ledled y DU i fonitro, casglu a rhannu data a thueddiadau ar sgamiau gyda'r sector ehangach.

Cyflwyno Dangosfyrddau Pensiynau

Wrthi'n galluogi pobl ledled y DU i gael mynediad at eu gwybodaeth am bensiynau ar-lein, yn ddiogel ac i gyd mewn un lle

Byddwn yn cwblhau'r Rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau (PDP), sy'n gyfrifol am ddylunio a gweithredu'r adeiledd digidol canolog a fydd yn gwneud dangosfyrddau pensiynau'n bosibl – gan alluogi unigolion i gael mynediad at eu gwybodaeth am bensiynau ar-lein, yn ddiogel ac i gyd mewn un lle. Bydd y dangosfyrddau'n darparu gwybodaeth glir am wahanol bensiynau unigolyn, gan gynnwys eu Pensiwn y Wladwriaeth.

Byddwn yn darparu ac yna'n parhau i wella'r gwasanaeth MHPD – sydd ar gael i bawb am ddim, yn Saesneg ac yn Gymraeg. Bydd hyn wrth wraidd ein gwaith pensiynau, a byddwn yn esblygu ein cynnwys, gwybodaeth, offer a gwasanaethau i gyd-fynd yn ddi-dor â'r gwasanaeth dangosfyrddau, wrth i ni ymdrechu i sicrhau bod pobl yn derbyn yr arweiniad cywir ar yr amser cywir i'w helpu i lywio dewisiadau cymhleth a gwneud penderfyniadau gwybodus. Byddwn yn sicrhau ei fod wedi'i gynllunio ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen, gan ddarparu gwasanaeth sy'n hygyrch i bawb.

Byddwn yn datblygu a chyflawni cynllun marchnata, gan gydlynu â'r llywodraeth, y diwydiant a rhanddeiliaid ehangach ar weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer lansio MHPD yn llwyddiannus ac argaeledd ehangach dangosfyrddau pensiynau.

Arweiniad ac addysg ariannol

Gwneud ein cynnwys a'n hoffer yn fwy hygyrch ac yn haws i'w deall i'r rhai sydd eu hangen fwyaf

Byddwn yn parhau i wella ein hadnoddau arweiniad ac addysg ariannol, gan helpu pobl i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus ac adeiladu eu sgiliau a'u gwybodaeth ariannol craidd. Byddwn yn gwneud ein cynnwys HelpwrArian yn fwy hygyrch, yn fwy addas ac yn haws i'w rannu (e.e. ychwanegu cynnwys byr, fideo ac offer mwy trochol).

Byddwn yn parhau i wella ein fframwaith hyfforddi a chymhwysedd, a'n deunyddiau ategol, ar gyfer Tywyswyr Arian. Bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio ar feysydd lle mae'r angen a'r effaith gadarnhaol bosibl fwyaf.

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i rannu mwy o adnoddau mewn mwy o leoedd lle gallant gael effaith gadarnhaol ar les ariannol drwy gydol bywydau pobl – o blant a phobl ifanc, trwy oedran gweithio ac yn ystod ymddeoliad a bywyd diweddarach.



Galluogrwydd sy'n trawsnewid

Mae'r byd yn newid yn gyflym ag anghenion defnyddwyr sy'n cynyddu ac yn mynd yn fwyfwy cymhleth a thechnoleg arloesol, gan ddod â chyfleoedd a risgiau mawr i ddefnyddwyr. Yn y cyd-destun hwn, dim ond os oes gennym y bobl gywir sydd â'r galluoedd cywir yn y lleoedd cywir, ar gyfer heddiw ac ar gyfer y dyfodol, y gallwn gyflawni pethau gwych. Yn fwy nag erioed, mae angen i ni feithrin diwylliant o arloesi, hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant, a chofleidio hyblygrwydd mewn tirwedd sy'n esblygu'n gyflym er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gyflawni effaith fwyfwy ar unigolion a chymdeithas.

Byddwn yn gwella ein **technoleg a data**, gan wella ein gallu i ddeall ein cwsmeriaid, arloesi, a mesur a gwella perfformiad. Mae hyn yn cynnwys treialu offer deallusrwydd artifisial (AI) yn fewnol i gynyddu effeithlonrwydd a gwasanaeth cwsmeriaid, wrth archwilio cymwysiadau AI yn y dyfodol i yrru canlyniadau gwell. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cryfhau ein galluoedd dadansoddi i gynhyrchu mewnwelediadau i ymddygiadau a demograffeg cwsmeriaid. Bydd hyn yn llywio ein gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ein hunain ac yn cefnogi ein partneriaid, gan ein galluogi ar y cyd i gyflawni dull mwy targedig ac effeithiol.

Mae ein gallu i gyflawni ein hamcanion strategol yn dibynnu ar **ddenu, cadw a datblygu pobl dalentog**. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar greu diwylliant sefydliadol cynhwysol a dynamig sy'n hyrwyddo hyblygrwydd, cydweithio a chreadigrwydd, gan ein galluogi i ddarparu gwasanaethau gwych i'n cwsmeriaid. Bydd hyn yn cael ei gyflawni gyda ffocws penodol ar gefnogi cam nesaf dangosfyrddau pensiynau, ehangu ein rhaglen Tywyswyr Arian ymhellach, a defnyddio'r sianeli cyflawni gorau i gefnogi ein gwasanaethau arweiniad – boed yn uniongyrchol neu drwy bartner allanol. Er mwyn cefnogi ein cyfeiriad strategol o ddarparu gwasanaethau mwy cydgysylltiedig i gwsmeriaid, byddwn yn edrych yn fewnol i nodi cyfleoedd – ac ymdrin â rhwystrau – i ddod yn sefydliad gwirioneddol gyfannol ac integredig. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynyddu cynrychiolaeth ar draws pob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Drwy hyn i gyd, byddwn yn **sicrhau gwerth am arian** drwy ddarparu gwasanaethau mwy cynhyrchiol, wedi'u galluogi gan swyddogaethau cefnogol mwy effeithlon. Drwy optimeiddio systemau, mireinio prosesau, a buddsoddi yn ein pobl i dyfu galluoedd a'u galluogi i addasu i anghenion newidiol ein cwsmeriaid, byddwn yn cynyddu effeithlonrwydd ar draws pob maes. Bydd ein hymrwymiad i welliant parhaus yn cael ei wreiddio ledled y sefydliad, gan gymhwyso methodolegau profedig sy'n gwella perfformiad a chanlyniadau'n gyson. Byddwn yn symleiddio ein cynnig gwasanaeth drwy gyflwyno ein brand corfforaethol newydd – wedi'i alinio â'n brand HelpwrArian presennol – gan ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid a phartneriaid gael mynediad at y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, waeth beth sut maen nhw'n rhyngweithio â ni.

Technoleg drawsnewidiol

Gwella ein galluedd craidd mewn technoleg, data a deallusrwydd artiffisial i ysgogi arloesi a rhagoriaeth i'n cwsmeriaid, partneriaid a chydweithwyr

I baratoi ar gyfer lansiad cyhoeddus Dangosfwrdd Pensiynau HelpwrArian, bydd y sefydliad yn sicrhau bod y systemau, y prosesau, y rheolaethau a'r galluedd angenrheidiol ar waith i redeg, cefnogi a gwella'r gwasanaeth yn barhaus – gan ddarparu gwasanaeth effeithiol i holl ddefnyddwyr a rhanddeiliaid y dangosfwrdd.

Byddwn yn gwella ein gallu data a dadansodol ac yn symleiddio'r systemau a ddefnyddiwn i gasglu a dadansoddi data. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall ein cwsmeriaid yn well – a defnyddwyr yn ehangach – ar lefel y DU, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Bydd yn ein helpu i wella prosesau mewnol, gan sicrhau bod data yn llywio dyluniad a thargedu ein gwasanaethau a sut rydym yn cefnogi partneriaid, gan ein galluogi i hybu perfformiad a gwella canlyniadau i gwsmeriaid.

Byddwn yn peilota'r defnydd o offer AI yn fewnol i wella gwasanaeth cwsmeriaid ac effeithlonrwydd. Byddwn hefyd yn parhau i sganio esblygiad offer deallusrwydd artiffisial ac archwilio cyfleoedd i'w cymhwyso i'n gwasanaethau lle gallent sbarduno gwell gwasanaeth, effeithlonrwydd a chanlyniadau.

Darparu gwerth eithriadol

Sicrhau gwerth am arian drwy wasanaethau mwy cynhyrchiol ac effeithiol a swyddogaethau galluogi mwy effeithlon

Byddwn yn gyrru cynhyrchiant mwy wrth ddarparu ein gwasanaethau drwy weithredu gwelliannau yn y ffordd rydym yn darparu'r gwasanaethau hynny a sut rydym yn dyrannu ac yn hyblygu adnoddau yn unol â'r galw, ynghyd â buddsoddiad wedi'i dargedu yn ein technoleg a galluedd pobl.

Byddwn yn parhau i ysgogi effeithlonrwydd ym mhob un o'n swyddogaethau galluogi – gan fuddsoddi yng ngallu ein pobl a chyflwyno systemau a ffyrdd newydd o weithio i ymgorffori effeithlonrwydd ac enillion cynhyrchiant, gan ganiatáu i ni symud mwy o adnoddau i'r rheng flaen.

Byddwn yn ymgorffori diwylliant o welliant parhaus ledled y sefydliad, gan ddatblygu agweddau sydd eisoes ar waith, gan gymhwyso methodolegau priodol i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant yn raddol ar draws pob swyddogaeth, codi ymwybyddiaeth o dechnegau, cynyddu sgiliau sefydliadol a dathlu llwyddiant.

Byddwn yn cysoni golwg a theimlad ein gwasanaethau a'n rhaglenni fel rhan o'n brandio MaPS a HelpwrArian – gan helpu i'w gwneud hi'n haws i gwsmeriaid a phartneriaid nodi ac adnabod y wybodaeth a'r gwasanaethau a ddarparwn.

Diwylliant sefydliadol cynhwysol ac ystwyth

Galluogi a grymuso ein pobl i chwalu silos, cydweithio ac addasu i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid mewn byd sy'n newid yn gyflym

Byddwn yn canolbwyntio ar ymgorffori egwyddorion ac arferion ystwyth i alluogi'r sefydliad a'n pobl i addasu i anghenion newidiol ein cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys recriwtio, datblygu a defnyddio cydweithwyr sydd â'r capasiti a'r gallu sydd eu hangen arnom i gyflawni ein hymrwymiaidau ar gyfer nawr a'r dyfodol.

Byddwn yn parhau i feithrin diwylliant cynhwysol drwy gyflawni ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer 2025-28. Byddwn yn gwella hygyrchedd, yn defnyddio data yn strategol i wella canlyniadau i gydweithwyr a chwsmeriaid, ac yn datblygu ein harweinwyr a'n rheolwyr i gymryd mwy o atebolrwydd am adeiladu diwylliant cynhwysol. Byddwn yn mesur ein cynnydd drwy ein harolwg ymgysylltu, gan fonitro barn ein pobl.

Er mwyn sicrhau bod gennym y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir i gyflawni ein hymrwymiaidau, byddwn yn datblygu ein brand cyflogwr a'n cynnig ymhellach, wrth i ni ymdrechu i fod yn gyflogwr o ddewis. Ein nod yw bod ein cenhadaeth, ein diwylliant, ein hamgylchedd gwaith, ein buddion a'n harweinyddiaeth yn ddeniadol i'n cydweithwyr presennol a'n darpar ymgeiswyr.

Sut i gymryd rhan

Bydd yn cymryd camau cydlynol i gyflawni ein gweledigaeth o ddyfodol ariannol gwell i bawb. Ynghyd â'n partneriaid rydym eisoes wedi cyflawni llawer, ond mae mwy i'w wneud, ac mae cydweithio'n dwyn ffrwyth!

Os hoffech chi gael gwybod mwy am ein gwaith, y cynllun strategol neu sut i gymryd rhan, gallwch chi:

- fynd i maps.org.uk/cy
- e-bostio ni yn contact@maps.org.uk
- dilyn ni ar [LinkedIn](#) ac [X](#).

Os oes angen help arnoch chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, gyda'u harian neu bensynau gallwch chi:

- cael gwybodaeth ac arweiniad gan [HelpwrArian](#)
- cael mynediad at gyngor ar ddyledion lleol a chenedlaethol drwy'r [Lleolwr Cyngor ar Ddyledion](#)
- ffonio ni ar 0800 138 7777 am arweiniad ariannol (0800 138 0555 ar gyfer y Gymraeg), neu 0800 011 3797 am arweiniad ar bensynau.



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**